Gair bach Bethlehem 45

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth – rhif 45 - (Rhifyn wedi'r Plygain 2024)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Rhifyn cyntaf 2024

O'r Preseb hyd y Plygain

Na! Dyw hi ddim yn rhy hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb o garedigion Bethlehem – boed yn aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion, ymhell ac agos.

Dyma'r rhifyn sy'n pontio'r cyfnod o'r Nadolig hyd at fis Chwefror. Peth edrych ymlaen, peth cofnodi'r wythnosau aeth heibio, gyda'r gweithgaredd mawr fu yma yng Ngwaelod-y-garth. Llu o luniau – a chyfle i chi eu cadw fel cofnod o weithgaredd hynod y Tŷ Cwrdd yma ym Methlehem.
A chofiwch – mae croeso i chi hefyd gyfrannu, boed fyr neu faith, i'r rhifyn nesaf – a'r nesaf wedi hynny. Mae'r gwahoddiad yn un cwbl agored – anfonwch air at tycnau@aol.com. Dyw hi byth yn rhy hwyr!

CYDYMDEIMLO

Rydyn ni'n anfon ein cofion at Ann Sion, Yr Eglwys Newydd, a'r teulu oll. Bu farw tad Ann, Emlyn Carrington, yng nghanol mis Ionawr, ychydig fisoedd wedi i'w briod, Eurwen, ei ragflaenu. Fel eglwys a chymuned, rydyn ni cofio am y cyfan o'r teulu ac yn meddwl amdanoch.

Yn y rhifyn hwn...

GWEITHGAREDDAU .. NEWYDDION ..
HOLL LUNIAU'R OEDFAON .. ERTHYGLAU

Suliau Bethlehem – Chwefror hyd Sul y Pasg

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (Pob gwasanaeth am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Chwefror 2024:
4ydd Chwefror - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
11eg Chwefror – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel *[dim YS]*
18fed Chwefror – Oedfa dan ofal y Cwrdd Merched
25ain Chwefror – Oedfa dan ofal Emlyn Davies

Mis Mawrth2024:
1af Mawrth – Oedfa Dydd Gwyl Dewi (9:30 a.m. – Bore Gwener)
3ydd Mawrth – Oedfa Gwyl Dewi yr Ysgol Sul
10fed Mawrth – Oedfa dan ofal Gwynfryn Morgan
17eg Mawrth – Sul y Cyf**UN**deb ym Mae Caerdydd (Canolfan yr Urdd)
24ain Mawrth – Oedfa Ardal dan ofal Marged Cartwright *[dim YS]*
29ain Mawrth – Oedfa Gwener y Groglith (am 10:00 a.m.)
31ain Mawrth – Oedfa Sul y Pasg dan ofal y Parchedig Aled Edwards *[dim YS]*

Dyma'r linc i'r oedfa a gynhaliwyd dan ofal y Parchedig Aled Edwards, ym Methlehem, ar fore Sul Ionawr 21, 2024. Diolch iddo am ei neges ac i Wyn am ei ofal o'r recordiad.
https://youtu.be/-eBOKhBwI_A

A dyma'r linc i'r oedfa a gynhaliwyd dan ofal Marc John Williams ar fore Sul Ionawr 28, 2024.
https://youtu.be/wH8H3BQCFZs
Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth a'u cenadwri - ac i Wyn unwaith eto am ei ofal o'r fideo.

NEWYDDION BETHLEHEM

- Mae **Paul a Rachel Garside**, Gwaelod-y garth, wedi cytuno i ofalu am y Suliau a'r pregethwyr sy'n ymweld â ni yn ein Tŷ Cwrdd. Diolch yn fawr iddyn nhw – ac yn wir i'r rhai sydd wedi gwneud y gwaith ar hyd yr holl flynyddoedd blaenorol.
- Mae yna bellach offerynnau taro i'r plant gael ymuno yn emyn y plant yn yr oedfa!
- Llongyfarchiadau i Gwenllian Wyn a Sion Meilir ar eu dyweddïad. Deallwn bod trefniadau'r briodas ar y 29ain o Ragfyr eisoes ar waith.

Pen-blwydd Hapus iawn
i Eirlys Davies, Radur ar ddydd olaf y mis bach – **Chwefror 29ain**.

Dim ond 20 dathliad mae Eirlys wedi gael ar y 29ain.
Cewch chi wneud y syms!

I'ch atgoffa fod yna gyfoeth o wybodaeth am weithgareddau Bethlehem ar ein gwefan:
Bethlehem - Croeso i Fethlehem
gan gynnwys
yr oedfaon fan hyn:
Bethlehem - Gwasanaethau 2023

Rhagfyr 17, 2023

Nadolig Hamddenol

Y ddrama Nadoligaidd yn 2023

Unwaith eto, daeth ieuenctid Bethlehem a phlant yr Ysgol Sul, gydag ambell oedolyn ychwanegol, ynghyd i berfformio eu cyflwyniad Nadoligaidd blynyddol. "Hamdden" oedd y thema oedd yn gwau drwy sgript Heulwen Jones eleni. Diolch iddi hi ac i'w chyd-athrawon yn yr Ysgol Sul am eu gwaith yn paratoi'r oedfa.
Ac y mae'r cyflwyniad, diolch i Wyn Jones a'i arbenigedd technolegol, i'w weld ar YouTube, dim ond i chi glicio ar y ddolen hon: https://youtu.be/SVHufN1aOko
(Mae'r lluniau ar y ddwy dudalen fan hyn wedi eu codi o'r recordiad hwnnw ar YouTube) Daeth y perfformiad i ben gyda'r cast a'r tîm o athrawon yn ymuno i ganu carol newydd o waith Eilir Owen Griffiths. Diolch iddo yntau am arwain y gân welwch chi yn y llun olaf ar y dudalen nesaf.



(rhagor ar y dudalen nesaf)

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn o

Gair Bach Bethlehem

yn lluniau a geiriau.

A diolch i chi am ei ddarllen!

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Ebrill 1af (ar ôl troi'r cloc): *tycnau@aol.com*

Myfyrdod ar gychwyn 2024

Rhwng yr hen a'r newydd

Gwilym Williams

Mae'r Cyngor wedi casglu'r goeden, y mân addurniadau a'r goleuadau fu'n dawnsio yn awelon yr hwyrnos bellach yn ddiogel am flwyddyn arall yn y llofft. Mae'r cardiau o bellter byd ac agos yn barod i'w hailgylchu ond yn haeddu eu hail ddarllen. Mae pob cerdyn yn dwyn ei neges ac yn dod ag atgofion gydag e.

Trysorir yr atgofion hyn. Un yn arbennig i mi ddaeth oddi wrth Beryl o Dunstable a fu'n efaciwî o Lundain gyda ni fel teulu yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Erbyn hyn mae hi'n 93 ac yn dal i fynychu campfa dair gwaith yr wythnos i gadw'n heini ac yn gwneud holl waith y cartref ei hun. Mae'n rhaid fod cyfnod yn awyr iach Ceredigion wedi bod yn llesol iawn, fel ag i ein Eirlys ni a ddaeth yn yr un modd i'r sir. Roedd yn rhwyg ofnadwy i blant orfod gadael eu rhieni o'r dinasoedd mawr fel Llundain a Lerpwl a symud i aelwyd arall mewn gwlad wahanol o ran iaith a diwylliant.

Beth sydd wedi newid mewn rhannau o'r byd?

Mae'r Nadolig yn gyfnod o gofio, cyfnod o ddathlu ond cyfnod sy'n galw arnon ni i weld y byd a bywyd fel y mae. Mae'n gyfnod hefyd sy'n arwain i flwyddyn newydd yn ein bywydau. Mae'r addunedau wedi eu gwneud ond yn anffodus i lawer, wedi eu torri'n barod! Tybed a ddylem ni, bob un, feddwl am y cardiau ac addunedau a rhoi cnoc ar ambell ddrws neu godi ffôn o dro i'w gilydd i gadw'r cysylltiad a rhannu consyrn. Mae un cerdyn flynyddol yn dderbyniol iawn, ond mae cyswllt cyson yn fwy bendithiol i bawb ac yn ein hatgoffa o negeseuon y Nadolig.
Wrth edrych ymlaen i'r flwyddyn newydd hon, fel rhan o'n gobeithion, dylem weddïo am fyd mwy heddychlon ac am ddiwedd ar y brwydro a'r gwrthdaro sy'n hollti a dinistrio teuluoedd a chymdeithasau ar draws y byd. Tristwch o'r mwyaf yw gweld a chlywed yn ddyddiol am yr erchyllterau sy'n digwydd yn sgil taflegrau a bomiau sy'n chwalu pob peth. Mae Gaza, Yemen, Wcrain a llawer gwlad arall yn byw mewn gobaith y bydd 2024 yn fwy diogel.
Trist hefyd yw gweld yn feunyddiol y ffoaduriaid sy'n edrych am fywyd gwell ac yn colli eu bywydau wrth groesi'r Sianel.

Wrth i ni ddymuno "Blwyddyn Newydd Dda" i'n gilydd, cawn ystyried y geiriau canlynol:

"O! deued dydd pan fo awelon Duw
Yn chwythu eto dros ein herwau gwyw
A'r crinder cras dan ras cawodydd nef
Yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo Ef."

Gwilym Williams

Heb ei gymell, na'i orfodi, yr anfonodd Gwilym ei gyfraniad i'r "Gair Bach" hwn. Rhaid fod gennych chi, hefyd, ambell dro, awydd anfon gair – byr neu estynedig.
Gair am y gorffennol, presennol neu ein dyfodol, dathliad nodedig yn y teulu, neu beth bynnag.
Beth amdani yn ystod 2024?
Wnawn ni ofalu am unrhyw gomas coll ac ambell atalnod llawn ayb.
"Cym on", Bethlehem, mae'r cyfraniadau'n brin ambell dro. Chi piau hwn.
Anfonwch at Ifan ar: tycnau@aol.com

Rhagfyr 25, 2023

Oedfa Bore'r Nadolig

Cip ar y cyfranwyr a'r gynulleidfa ddaeth i Fethlehem erbyn 10.00 y bore. Cofiwch bod y recordiad yn parhau ar YouTube drwy'r ddolen gyswllt hon: https://youtu.be/bvpw8zCgr5Y



Lansiad Cyfrol Alwyn

O'r Bae i'r Môr Tawel

Yn nociau Caerdydd – dechrau'r fordaith hunllefus



Nid oedd yn syndod o gwbl mai yr Eglwys Norwyaidd, ym Mae Caerdydd, a ddewisodd Alwyn Harding Jones (a rhoi iddo ei enw yn llawn) yn lleoliad ar gyfer lansiad ei gyfrol gyntaf, sef "*RAPA – Anturiaethau Cymro Ifanc ym Moroedd y De*".

Yn y lle cyntaf, mae'n adeilad rhestredig Gradd II, wedi ei adeiladu o bren yn 1868 fel man addoliad i'r nifer helaeth o forwyr o Norwy a fyddai yn ymweld a / neu yn byw yng nghyffiniau Tiger Bay yn rhinwedd y fasnach oedd rhwng gwledydd Prydain a'u gwlad yn y 19 ganrif.

Ac nid oes angen atgoffa ddarllenwyr y "Gair bach" mai pensaer, wedi arbenigo ac ymddiddori ym maes hen adeiladau, oedd, ac ydi Alwyn o hyd!

Wn i ddim a ydio hefyd yn ffan o waith Roald Dahl (1916 - 1990), ond yng Nghaerdydd y'i ganwyd, i rieni o Norwy, ac yn yr eglwys hon y bedyddiwyd yr awdur plant toreithiog yma (yn eu mysg *Y Twits, Charlie a'i Ffatri Siocled, Matilda* a mwy).

Yn y 19g, Caerdydd oedd y trydydd porthladd mwyaf yng ngwledydd Prydain (ar ôl Llundain a Lerpwl), ac nid yw'n syndod felly bod gwrthrych y llyfr a lansiwyd, sef "Taid RAPA" – taid Alwyn - wedi dod i grwydro dociau a strydoedd y ddinas yn chwilio am waith ym mis Mawrth 1917.

[Yn nechrau'r saithdegau byddai'r ŵyr yn crwydro'r union un ardal ar ei ffordd i Glwb Casablanca i wrando ar gerddoriaeth Gymraeg y cyfnod!]

Thomas Harding Jones oedd y gwr ifanc 18 mlwydd oed – gwr o Gaernarfon, a oroesodd longddrylliad y barc "*Inverness*", dan gapteniaeth un arall o Gaernarfon, y Capten John Hughes, ym Môr y De, ganrif yn ôl, a glanio, trwy ragluniaeth, ar ynys bellennig RAPA (Rapa Iti yw'r enw llawn arni, a phoblogaeth yr ynys yn 2017 oedd 507).

Mae'r stori gyfan sy'n cael ei rhannu yn y llyfr yn deillio o'r hyn a gydnabyddir ar glawr cefn y gyfrol, sef i Alwyn *"…etifeddu llyfr y mae'n ei drysori'n fawr: copi o ddyddlyfr y Capten John Hughes o Twtil, Caernarfon, yn llawysgrif ei daid*."

Ar noson y lansiad, daeth criw gwerthfawrogol i'r Eglwys Norwyaidd nos Fercher yr 17eg o Ionawr 2024 i glywed yr awdur yn cael ei holi'n dreiddgar gan Martin Huws, a chafwyd darlleniadau o bytiau o'r llyfr gan Dilwyn Young-Jones – y tri ohonynt yn gymdogion yn Ffynnon Taf. Diddorol oedd deall y gall bod diddordeb mewn paratoi cyfieithiad o'r llyfr er rhannu'r stori a chynulleidfa byd-eang, gan gynnwys i'r iaith *Rapa* tybed, a siaredir ar yr ynys? Chlywais i ddim hyd yma am ei gyfieithu i iaith y Cofis serch hynny – mi fentraf y byddai Wil Napoleon a Bob ac eraill o'r criw wrth eu boddau petai hynny'n digwydd!

Mynnwch eich copi a mwynhewch y cynnwys – mae'n stori antur werth ei darllen. [Gwasg Carreg Gwalch – Pris £8.50]

Rhodri-Gwynn Jones

Prys mewn print

I'r rhai ohonoch na chafodd gyfle i glywed Yr Athro Prys Morgan yn darlithio i Gylch Cadwgan ym Methlehem dro nôl, na gweld y fideo o'r noson sydd ar YouTube, yna mae yna erthygl yn y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn "O'r Pedwar Gwynt" sy'n crynhoi'r hanes.
"Ffynhonnell Hiwmor Samuel Beckett" ydi testun yr erthygl ac mae'r cyfan yn cychwyn gyda'r llythyr hwnnw oedd yn atig Prys Morgan – llythyr oddi wrth y dramodydd Samuel Beckett at Arthur Phillips, Gwaelod-y-garth. Fel y ddarlith, mae'n llawn o gyfeiriadau at fywyd aelodau'r Tŷ Cwrdd, eu harferion a'u diddordebau. Fel y ddarlith, hefyd, yn werth ei thrysori!

Dyfynnu o erthygl

"Holi Perfedd" – Manon Mathias

...a rhagflas o gyhoeddi cyfrol

Nid Prys Morgan oedd yr unig un a chyswllt â Bethlehem, Gwaelod-y-garth, i gyfrannu erthygl i'r rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn "O'r Pedwar Gwynt". Mewn llythrennau bras ar glawr Rhifyn 23 / Gaeaf 2023, gwelir cyfeiriad at "Holi Perfedd Manon Mathias".
Gellid meddwl felly mai erthygl o 'holi ac ateb' fyddai'r cynnwys. Ond o droi i dudalennau 7 ac 8, Manon ei hun sydd yn traethu ar (gan obeithio nad ydych wrth y bwrdd bwyd ar hyn o bryd) – "perfedd / perfeddion" – ac mae'r hyn a gyflwynir, fe dybiwn, yn deillio o'r gwaith ymchwil a wnaed ganddi ar gyfer llyfr (304 tudalen) fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill dan y teitl "*Gut, Brain, and Environment in Nineteenth Century French Literature and Medicine*" (Cyhoeddwyr: Routledge).
Mae'n erthygl hynod ddiddorol, gan ddechrau gyda'r defnydd trosiadol neu idiomatig yn ein hymadroddion Cymraeg ni – e.e. *ym mherfeddion cefn gwlad*; *cyrraedd yno berfeddion nos; bwrw ei berfedd; stumogi / troi'r stumog*.
Ac, o neidio i'r cyfandir, a hoffter y Ffrancwyr am goginio a chiniawa, a wyddech chi bod gwraidd y gair "*restaurant*" yn deillio *"…o'r broses o ymadfer ("restaurer") wedi salwch, ac mai gofal a lles cwsmeriaid oedd nod gwreiddiol y llefydd bwyta cyntaf hyn*…"
Y cyswllt rhwng y perfedd a'r corff a'r meddwl sy'n cael ei amlygu (trwy enghreifftiau llenyddol) yn yr erthygl, gan gloi gyda'r dyfyniad a wnaed gan T H Parry Williams yn y gyfrol "Myfyrdodau":-
"*Yr wyf wedi sôn am fynd i berfedd pethau, i weld y 'gweithredoedd' fel petai, a gwybod sut y maent yn gweithio*".
Ac meddai Manon, "*Mewn modd trosiadol y cyfeirir at y perfedd yma, ond datgelir mewn ymadroddion o'r fath ddealltwriaeth ddofn o bwysigrwydd y broses dreulio fel modd o fynd ati i ddeall y cwestiwn dyrys hwnnw, "beth yw hanfod dynoliaeth*?"
Mwy o bwdin unrhyw un?

Rhodri-Gwynn Jones

Rhagfyr 31, 2023

Oedfa ola'r flwyddyn – un anffurfiol yn y Festri

(a dishgled / paned cyn dechrau!)




(Rhagor am oedfa ola'r flwyddyn ar y dudalen nesaf)

Mae'r orig hyfryd hon hefyd ar gael ar YouTube – dim ond i chi glicio ar: https://youtu.be/Cb5oelNsa4k
Diolch unwaith eto i Delwyn am ei arweiniad ac i Pwt am y gwaith camera – er mai fe sydd leiaf amlwg yn y lluniau!

Cwrdd Merched Ionawr

Dewisiadau Darllen Shân

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2024 o'r Cwrdd merched yng nghwmni difyr Shân Osborne a'i dewis o lyfrau. Bob blwyddyn, arhoswn yn eiddgar am ei dewisiade' a 'doedd eleni'n ddim gwahanol.

Dyma restr o'r llyfrau a awgrymodd Shân i ni.

- *Zorrie...Laird Hunt.*
- *Foster...Claire Keegan.*
- *Sula...Toni Morrison.*
- *Trespassers…Louise Kennedy.*
- *Shrines of Gaiety...Kate Atkinson.*
- *Still Life...Sarah Winman.*
- *Demon Copperhead...Barbara Kingsolver.*
- *Leonard & Hungry Paul…Ronan Hession.*
- *Lessons...Ian McEwan*
- *Marriage Portrait…Maggie O'Farrell.*
- *The Island of Missing Trees…Elif Shafak.*
- *The Poisonwood Bible...Barbara Kingsolver.*
- *The Bee Sting...Paul Murray.*
- *Lucy by the Sea…Elizabeth Strout.*

Yn ychwanegol, fe awgrymwyd RAPA gan yr awdur yn ein plith ym Methlehem, Alwyn Harding Jones. Stori yw am gysylltiad Caernarfon ag ynys Rapa yn Tahiti. Stori gwerth ei darllen.
(Gweler tudalen 8 o'r rhifyn hwn.)
Diolch hefyd i Delyth ag Eirlys am agor y cyfarfod mewn ffordd mor addas. Delwyn Sion fydd ein siaradwr yn y cyfarfod nesa'. Edrychwn mlân.

Ann Jones

Ionawr 14, 2024

Y PLYGAIN

Dwy dudalen o luniau



Dyma nhw, drwy lygaid sawl camera – nid yn nhrefn y canu. (Ac y mae yna ambell lun cyfansawdd – fel yr un isod!)

(Diolch i bawb fu'n cymryd rhan ac i gyfranwyr y lluniau hefyd. Mae'r oedfa i'w gweld a'i chlywed ar YouTube – dim ond clicio ar y ddolen hon: https://youtu.be/ccNlb3iRQrc)

ODLAU'R GARTH

Yn amlwg wedi iddo glywed sylwadau Aled Edwards am "y cwestiynau mwyaf twp yn y byd" ysgogwyd un o'n cyd-aelodau i anfon neges didwyll ac ingol at un o uwch-swyddogion Bethlehem, fel â ganlyn:

> *Dyma gyfle i ti ofyn y "cwestiwn mwya twp yn y byd". Dwi di gadael ambarél ar f'ôl yn rhywle. Byrrach nag un arferol gan ddynion, lwpen hongian ar y pigyn a'r handlen. Cylch alwminiwm gloyw yn yr handlen - a'r cyfan (wrth gwrs) yn ddu! Mae'n gyfaill sy' wedi bod gen i ers blynyddoedd heb ei golli, tan rwan! Tybed ydy o wedi ymuno â'r Annibyns?*

Ymateb braidd yn ddi-gydymdeimlad un o'n harch-uwch-swyddogion oedd y cocoswaith isod. O ddiffyg darnau o sylwedd y tro hwn, fe'i cyhoeddwn – gan gadw enw'r bardd ynghudd, o ran parch i'w CV, os byth bydd e am greu un!

Wel, wel,
[redacted] mewn gwewyr heb ambarél!
Ffarwel?
Anochel?
Teimlo'n isel?

Mewn rhyw gornel
Yn y dirgel?
Mewn un bwndel
Hefo'r sbwriel?
Yn y rwbel,
Dyna gawdel?

Wedi dychwel
Af i'r capel;
I weddïo yn go dawel.
gofyn cymorth bob un angel.

Wedyn, rhown hysbys ar bob un sianel
I ddisodli sôn am ryfel

Ac os y daw i'ch tŷ chi barsel
Agor o yn dawel, dawel,
Rhag bod ynddo, un a'i potel,
Neu rhyw fodd i ti ymochel.

O blydi hel!
Dwi wedi rhedeg allan o odls el....

NID OES ANGEN I CHI YMATEB NA CHYNORTHWYO'R COCOSFARDD FAN HYN! (Gol.)

Ymateb pellach braidd yn obeithiol cyn-berchennog yr ambarél oedd ei gred na fyddai gormod o law am y tro! Mae Isha a Jocelyn siŵr o fod yn crechwenu!

OND – OS GALLWCH CHI HELPU'R YMHOLYDD – GWELL FYTH, DDYCHWELYD YR AMBAREL – YNA GWNEWCH HYNNY!

Yng ngeiriau cyflwynwyr Creimwatsh, "Cysgwch yn dawel" – oni bai fod yr ambarél bellach yn lobi eich cartref chi!

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn o

Gair Bach Bethlehem

yn lluniau a geiriau.

A diolch i chi am ei ddarllen!

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Ebrill 1af - *tycnau@aol.com*